

DOLEN Y TAB 112

24 - 25 Mehefin 2022

Oedfa Sul 26 Mehefin am 11

Ann ac Emlyn Davies
gyda Sian Elin wrth yr organ

YR OEDFAON NESAF

Gorffennaf

- 3 Oedfa Gymun yng nghwmni Eifiona, Audrey a Rhiannon Humphreys
- 10 Y Parchedig Aled Edwards
- 17 Oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul
- 24 Ymuno â Bethlehem Gwaelod y Garth Oedfa yng ngofal Marc J. Williams
- 31 Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu

Awst

- 7 Ymuno â Bethlehem Gwaelod y Garth
- 14 Edwyn Evans
- 21 Ymuno â Bethlehem Gwaelod y Garth

Hefyd ddydd Sul 26 Mehefin

12.00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan.

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol

Huw Edwards fydd ym Mlaen-y-coed, Sir Gâr, bro enedigol un o emynwyr enwoca'r ganrif ddiwethaf, un a gyfansoddodd rhai o'n hemynau mwyaf poblogaidd, Howell Elvet Lewis, neu'n fwy cyfarwydd i ni, Elfed.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

PRYSURDEB HAF 2022

Yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Bwrdd derbyniwyd rhestr o'r gweithgareddau niferus sydd wedi eu cynnal neu ar y gweill i blant a phobl ifanc y Tabernacl yn ystod misoedd yr haf, gan ddechrau gyda thrip plant yr Ysgol Sul i Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn gynharach y mis hwn. Yr wythnos hon tro'r Twmiaid fydd mwynhau gwibdaith leol a noswaith o antur. Ond mae llawer rhagor i ddod rhwng hyn a diwedd Gorffennaf, gan gynnwys Barbeciw pnawn Sul 10 Gorffennaf a the parti'r Ysgol Sul yr wythnos ganlynol.

Pwy bellach sy'n cofio mor wahanol oedd profiad plant ac ieuencid y Tabernacl, fel pobman arall, yn ystod misoedd yr haf 2020 a 2021? Pwy hefyd sy'n cofio'r her anferth o aildechrau'r Ysgol Sul a'r Twmiaid fis Medi diwethaf? Fel eglwys rydym yn hynod o ddyledus am ffydd, gobaith a chariad criw o aelodau'r eglwys ac Eleri Mai, ein Swyddog Ieuencid a Chymunedol gweithgar, am adfer sefyllfa bryderus iawn lai na blwyddyn yn ôl. Diolch hefyd i'w teuluoedd am eu cefnogaeth hwythau.



Sut i logi'r Capel neu'r Ganolfan?

E-bostiwrch
gehpengwern@yahoo.co.uk

Neges Testun

07710 237327

Ffonio

01433 225205



Pigion o'r Wasg

Rhannu Bwyd ym Mhwll-trap

Yn rhifyn yr wythnos ddiwethaf o'r *Tyst* (gweler www.annibynwyr.org/cy/page/newsletter) cyhoeddwyd adroddiad diddorol am fenter ddyngarol newydd Tŷ Croeso, Bethlehem Newydd, Pwll-trap ger Sanclêr.

Fel llawer i archfarchnad, roedd tomen o fwyd ffres yn cael ei daflu i'r bin yn ddyddiol gan y Co-op yn Sanclêr, ond ar waethaf popeth roedd rheolwyr y siop wedi bod yn aflwyddiannus wrth chwilio am bartneriaid i dderbyn y bwyd fel y gellid ei rannu ymhlith yr anghenus yn hytrach na'i wastraffu.

Er bod Tŷ Croeso yn awyddus iawn i helpu, yr anhawster mwyaf oedd dod o hyd i ffynhonnell leol i dderbyn y bwyd. Daeth datrysiad adeg y Pasg pan soniodd Annalyn Davies, Swyddog Cymunedol Tŷ Croeso, am hyn pan oedd yn danfon wyau pasg i loches menywod yng Nghaerfyrddin. Wedi deall y byddai'r loches yn barod i dderbyn y bwyd, ac y byddai o gymorth mawr iddynt, cytunwyd i anfon cais ffurfiol ar y cyd i'r archfarchnad - a bu'r cais hwnnw'n llwyddiannus.

Bellach mae Tŷ Croeso yn gyfrifol am gasglu'r bwyd o'r siop ar ddydd Llun a dydd lau bob wythnos ac yna ei gludo i'r loches yng Nghaerfyrddin. Llwyddwyd yn gwbl ddiraffferth i ddenu gwirfoddolwyr i ymuno â'r rota i gludo'r nwyddau, nid yn unig o blith aelodau Bethlehem Newydd ond hefyd drawstoriad o'r gymuned ehangach.

Mae'n hyfryd gweld eglwys megis Bethlehem Newydd, fel y Tabernacl, wedi ei hysgogi i weithredu yn ôl y cyngor a welir yn ail bennod llythyr lago sy'n cloi gydag adnod 25: *'Fel y mae'r corff heb anadl yn farw, felly hefyd y mae ffydd heb weithredoedd yn farw'*.

RHESTR FLODAU

Cyn diwedd yr wythnos nesaf byddwn wedi symud i ail hanner 2022; gair felly i'ch atgoffa bod y rhestr flodau wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbyswrdd yng nghyntedd y capel. Ar hyn o bryd mae nifer o Suliau i'w llenwi weddill y flwyddyn y medrwrch ddewis o'u plith. Cofiwch na fydd oedfa gennym yn y Tabernacl ar y Suliau canlynol - 24 Gorffennaf, 7 a 14 Awst - pan fyddwn yn cyd-addoli gydag aelodau Bethlehem yng Ngwaelod y Garth.



PANED A CHLONC

Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT

Come for a friendly and relaxed chat



Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel

PARTI PONTY

partiponty.cymru

2^{IL}

GORFFENNAF 2022

9:00-16:30

PARC COFFA
YNYSANGHARAD

GŴYL GYNRAEG I BAMB
CERDDORIAETH BYW
YSGOLION

GWEITHGAREDDAU TEULU
CHWARAEON

BHYD A DIOD
A MWY...

Mwynha'u Gymraeg

WYMEDDAD
AR DDIM



BABI TWM

Y Ganolfan,
Capel Tabernacl

10.00-11.30



Mehefin 6ed & 20fed,
Gorffennaf 4ydd & 18fed

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i
plant/wyrion/wyresau

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cofiwch fod modd anfon cofnodion y Bwrdd at unrhyw aelod o'r Tabernacl sydd am derbyn copi wedi iddynt gael eu cadarnhau trwy gysylltu gyda: gehpengwern@yahoo.co.uk neu ffonio 01443 237327.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk